$4
Medi
2011

# Llais Yr Andes

## Papur Cymraeg Trevelin ac Esquel

***I ddod...***

***Ffair Wanwyn Esquel***

***Twmpath Dawns Trevelin***

***Clwb Cerdded***

***Ymweliad yr Urdd***

***Mwy o Glybiau drama a darllen Esquel***









Bellach mae’r gwanwyn wedi cyrraedd yr Andes, ond dyma olwg ar rai o’r pethau sydd wedi diwydd yn ddiweddar a thros fisoedd oer y gaeaf. Yn y rhifyn yma mae yna cyfle i chi ddarllen newyddion, cyfweliad, rysáit, cyfle arall i gael blas ar ddarllen, rhywbeth i’r plant, posau, ac wrth gwrs cyfle arall i ennill gwobr yn y gystadleuaeth a darganfod pwy oedd enillydd lwcus y rhifyn diwethaf.

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Bydd criw arall o bobl ifanc o Gymru yn ymweld â’r Andes ym mis Hydref gyda’r Urdd. Criw o’r gogledd ydyn nhw’r tro hwn ac maen nhw’n edrych ymlaen i ddod. Bydd rhagor o fanylion yn dod yn fuan.

Iwan Madog

# Hel atgofion yn y capeli gyda Rhiannon



Roedd yn fraint a phleser cael cwmni Rhiannon Williams o Gymru a'i gŵr Huw yn ddiweddar yn y Wladfa. Er iddyn nhw briodi tua dwy flynedd yn ôl roedden nhw wedi aros i hel arian er mwyn dod ar eu mis mêl. Mae Rhiannon yn astudio ar gyfer ei doethuriaeth ac yn dysgu ym mhrifysgol Morgannwg ac roedd hi wedi paratoi ei pherfformiad fel rhan o'r gwaith yma.

Yn gyntaf ar brynhawn dydd Sul 4 Medi cynhaliwyd cwrdd yng nghapel Bethel Trevelin ac roedd yn braf gweld cymysgedd o bobl, rhai sydd yn siarad Cymraeg, rhai sydd wedi dysgu a rhai sydd newydd ddechrau dysgu. I gyfeiliant Alan Winter ar yr organ canon ni ddau emyn ac wedyn yn lle pregeth arferol perfformiodd Rhiannon ei darn. Roedd rhywbeth emosiynol iawn wrth ei chlywed hi'n adrodd hanesion o'i bywyd hi yn y capel ym Mhont Iets yn Sir Gâr a gweld rhai o'r bobl oedd wedi cael eu magu yn y Wladfa yn nodio eu pennau wrth iddyn nhw feddwl am eu profiadau tebyg nhw. I fi yn bersonol roedd yn deimlad cryf wrth feddwl am y bobl oedd wedi codi capel Bethel mor bell o'r traddodiad capel yng Nghymru ac eto bod ni yn rhannu'r un profiadau.

Cododd Rhiannon wên wrth son am ddrama'r Geni a'r bugeiliaid gyda'u llieiniau sychu llestri ar eu pennau a'r merched i gyd oedd eisiau cael eu dewis i chwarae rôl Mair a bron iddi dynnu deigryn neu ddau wrth droi i feddwl am y bobl sydd wedi cael dylanwad arnom ac sydd ddim gyda ni bellach. Roedd Rhiannon wedi cyfleu llawer o emosiynau mewn ffordd syml gan ddefnyddio ei llais a'i chorff ac adrodd hanesion ond roedd pawb wedi mwynhau ac roedd hi wedi rhoi digon o ddeunydd meddwl i ni. Roedd Huw wedi'i chynorthwyo drwy chwarae'r organ ac roedd o wedi blino ar ôl yr holl 'pedlo'! Wedyn roedd cyfle i gymdeithasu yn Nhŷ'r Capel dros baned a chacennau hyfryd oedd wedi'u gwneud gan y myfyrwyr.

Ar y dydd Mercher daeth Rhiannon a Huw i Esquel ac i berfformio yng Nghapel Seion. Roedd yn ddiddorol gweld fel roedd cynulleidfa wahanol yn ymateb yn wahanol ond cafwyd yr un bleser o rannu teimladau a phrofiadau. Ar ôl y perfformiad roedd Rhiannon wedi arwain y sesiwn o'r clwb Drama a mwynheuodd pawb y ffordd roedd hi wedi ein hannog i adrodd stori bersonol mewn ffordd ddramatig - diolch byth bod Iwan wedi bod yn ein hyfforddi drwy'r flwyddyn i ni allu ymateb!

Yn ffodus i'r Gaiman a Threlew aeth y pâr ymlaen i'r Dyffryn wedyn a pherfformiodd Rhiannon dwywaith arall - am ffordd i basio eich mis mêl! Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r ddau am rannu'r gwaith gyda ni ac yn edrych ymlaen at weld nhw eto yma yn y dyfodol.

Clare Whitehouse

doethuriaeth - doctorado
cyfeiliant - acompañamiento
profiadau - experiencias
dylanwad - influencia
cynorthwyo - ayudar
annog- fomentar
hyfforddi –entrenar

# Côr Seion

Ar y 21 o Fedi yng Nghanolfan y Celfyddydau Esquel 'Melipal' roedd dathliad arbennig am 'ddiwrnod y Gwanwyn' sef cyngerdd i ddathlu 20 mlynedd o fodolaeth Côr Seion.

Dyma ychydig am y côr gan Elda Griffiths:

"Dechreuodd Côr Seion yn 1991 er mwyn cadw'r traddodiadau Cymreig trwy ei cherddoriaeth. Mae'r aelodau wedi amrywio ar hyd y blynyddoedd, ond mae rhai wedi bod yno o'r cychwyn. Yn 1996 aeth y Côr i deithio i Gymru - trip arbennig. Hefyd rydym wedi cymryd rhan fel côr yn Nhrevelin, San Martin de los Andes, Bariloche, a Cordoba."

Yn ystod y noson arbennig canwyd rhai o ffefrynnau'r côr fel 'Pedair Oed' gyda Luis Gomez yn canu'r unawd, 'Gwinllan a Roddwyd' gydag unawd Jorge Junyent, 'Y Tangnefeddwyr', 'Pan fo'r Nos yn Hir' ac 'Yfory' yn ogystal â negeseuon gan bobl oedd wedi canu gyda'r côr, oedd yn dymuno'n dda i'r côr a thipyn o hanesion gan Marta Goletti a Silvia Williams. Cydganwyd 'Calon Lân' gyda'r gynulleidfa o tua 140 o ffrindiau a chymdogion i gloi'r rhan ffurfiol o'r noson cyn i'r côr ddychwelyd i'r Ganolfan am empanadas a mwy o ganu!

Diolch i Elda am ei holl waith a dymuniadau da am y dyfodol!

# Holi Hwn a Holi Llall

sioe gerdd - musical
cymdogaeth Tsieineaidd - barrio Chino
San Steffan - Westminster donde se reune el parlimento britanico
anesmwyth - inquieto

**Pwy dych chi?**
Cristina Jones dw i.

**Ble dych chi'n byw?**
Dw i'n byw yn Esquel, ond roeddwn i'n arfer byw ar y fferm yn ymyl Trevelin pan o'n i'n blentyn.

**Ble fuoch chi'n teithio?**
Bues i'n teithio yn yr Almaen, yng Nghymru, yn Llundain a Pharis.

**Gyda phwy aethoch chi?**
Modryb Lizzie, Sylvia fy nghyfnither a'i merch Gabriela.

**Ble oedd eich hoff le?**
Wel, anodd dweud achos, yng Nghymru, mi gwrddais i efo llawer o ffrindiau a theulu, felly roedd yn brofiad arbennig. Ond o ran dinasoedd mi liciais i Lundain yn fawr iawn. Roedd llawer o wyrddni yn y ddinas, oherwydd yr holl barciau. Roedd popeth a phobman yn drefnus a glan. Es i i'r theatr Victoria i weld y sioe gerdd 'Billy Elliot', i erddi botaneg Kew, ardal Notting Hill, Sgwâr Treafalgar, am dro ar yr afon Tafwys, Harrods a'r holl siopau hyfryd, Soho, cymdogaeth Tsieiniaidd, Picadilly Circus, San Steffan, Pala Buckingham a Chastell Windsor.

**Ble cawsoch chi'r pryd o fwyd gorau ar y daith?**
Cefais fwyd da iawn yn Ffrainc, roeddwn yn hoff iawn ohono. Roedd o'n debycach i'r bwyd yma. Yn yr Almaen gwnaethon brofi bob math o selsig, berwr dŵr (chucut), ac wrth gwrs lot o gwrw da.

**Beth sy'n aros yn y cof?**
Aethon ni i Dŵr Llundain. Mi welon ni 'hombre invisible'. Roedd Gabriela eisiau tynnu llun gydag o, ond roedd hi'n teimlo ychydig yn anesmwyth, Pan glywodd y person tu mewn i'r siwt ni'n siarad, dywedodd "Dejate abrazopor un paisano." Roedden ni'n synnu wrth i ni ei glywed yn siarad Sbaeneg. Holom o ble oedd yn dod, ac roedd yn dod o Bariloche! Ac ar ben bob dim roedd yn ffrind mawr gyda Loly Roberts o Esquel - byd bach!

**Ble hoffech chi fynd nesaf?**
Hoffwn i fynd i'r Eidal, ac i Groeg.





-wladol

# Parciau Caedydd



Mae Caerdydd yn ddinas bert iawn, llawn o flodau a swyn. Llawn o hud. Cyrhaeddais i Gaerdydd ar y cyntaf o fis Gorffennaf i wneud cwrs Meistroli yn y Brifysgol. Roedd y dosbarthiadau yn dechau am naw o'r gloch yn y bore, ac roedden nhw'n gorffen am bump o'r gloch yn y prynhawn. Yn y cwrs roedd pobl o Ganada, yr Unol Daleithiau, Gwlad Pwyl, Patagonia ac wrth gwrs pobl o Gymru.

Mae popeth yng Nghaerdydd yn brydferth ond roeddwn i'n dwli ar lwybrau parciau. Roedd hi'n bwrw glaw bron pob dydd, ond roeddwn i'n mwynhau cerdded yn ôl i dŷ Menna, yn Llandaf, ble roeddwn i'n aros.

Roeddwn i'n cerdded ar hyd llwybrau'r parciau ar bwys yr afon Taf, yn gyfochrog North Road. Cerddais y ffordd hon sawl gwaith. Roeddwn i'n synnu, achos roedd y ffordd mor goediog roeddwn i'n teimlo fel petawn mewn coedwig, ac mewn gwirionedd, roeddwn i ychydig o fetrau o'r stryd fawr gyda llawr o geir.

Roedd modd gweld cefnau tai North Road ar ddechrau'r llwybr, ond wedyn roedd y ffordd yn mynd yn bellach ac yng nghanol y coed mawr, roeddwn i'n teimlo fel roeddwn i'n cerdded yn y fforest ar bwys yr afon.

Pan oedd hi'n bwrw glaw yn galed iawn, dim ond ychydig o ddiferion oedd yn fy nghyffwrdd, achos y to o goed oedd yn fy amddiffyn rhag y glaw.

Doeddwn i ddim wedi sylweddoli o'r blaen sawl math o wyrdd sydd mewn natur. Roedd llawer o flodau gwyllt, pinc, gwyn, melyn, ond roedd y cefndir wastad yn wyrdd. Roedd yno gant gwyrdd gwahanol, y coed, y llwyni, y glaswellt. Ac roedd arogl o'r gwyrddni yn felys iawn. Roedd fel petai cyfansoddwr wedi cyfansoddi darn: diferion y glaw ar y dail yn sain ddofn, ac yr afon y sain llonydd, y cytgord perffaith yn y gân ryfeddol.

Buaswn yn gallu cerdded am oriau yna yn ymlacio. Mwynheais y cwrs lawer, a mwynheais Caerdydd a'i pharciau. Liliana Melnik

# Cymreg yn yr Andes

Dyn ni ddim yn siŵr faint o bobol sy'n dal yn siarad yr hen iaith ym Mro Hydref eto, ond mi hoffwn i neud rhestr o Archentwyr Cymraeg yn yr ardal. Darllenais i mewn llyfr bod yna 5000 yn siarad Cymraeg yn y Wladfa, ond mae amcangyfrifon eraill yn dyfalu bod yno dua 7000 yn dal yn siarad neu wedi dysgu'r iaith. Pwy a ŵyr? Mae'n anodd rhoi ffigwr pendant. Clywais hefyd bod dros 200 o Andinwyr(Andinos) yn dal yn siarad yr iaith Geltaidd yn fan hyn.

Dechreuais ymweld â phobol sy'n siarad Cymraeg y Wladfa yn 2010, gydag Eluned O. Evans, swyddog Menter. Aethon ni i ymweld â Mariela Owen a'i fferm, Vicente Evans ac Arwel Morgan yn ei hen dŷ Cymreig yn agos i'r 'Pump Cornel' ar y ffordd i'r ffin gyda Chile.

Bues i hefyd yn ymweld mwy nag unwaith gyda Nel Owen, Jinnie Williams, Ofelia Williams de Insley, Julia Owen(Esquel), Einar ac Amelia Jones, Darwin Morgan ac y ddiweddar Olwen Owen. Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf ond erbyn hyn dydy rhai ddim yn arfer defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Eleni penderfynais, ar y cyd gydag Iwan M. Jones, parhau â'r gwaith a'i wneud yn amlach drwy fynd pob wythnos i ymweld â rhywun sy'n siarad Cymraeg yn Nhrefelin a'i chyffiniau. Erbyn hyn dyn ni wedi bod mewn sawl fferm a thŷ yn cael sgwrs Cymraeg diddorol dros baned o de neu *mate* a *facturas*. Aethon ni i ail-ymweld â rhai oeddwn wedi ymweld o'r blaen ac yn ychwanegol: Nora Evans, Meiriona Williams, Glenys Owen, Eilir Hughes, Norman Jac Gors, Nanws Williams, Philis Jones, Menna Evans, Ivy Williams de Hammond, Alda a Lenard Williams, Ana Clara Cantero Simms(pan buodd hi yma ar ei gwyliau Gaeaf). Rydym wedi cael llawer o hwyl, ac wedi cael pleser yn gwrando ar eu straeon a'u Cymraeg. Roedd rhai yn swil i siarad i ddechrau, ond mewn pen dim roedd Cymraeg swynol yn byrlymu oddi ar eu gwefusau. Mae'n ddiddorol clywed geiriau a dywediadau, sydd ddim yw cael eu dysgu yn y dosbarth, fel 'pipian', 'tenau fel gwaffal', 'stôr' a ddim yn gwybod beth ydy siop.

Dyn ni'n dal yn chwilio am bobl, felly os dych chi eisiau neu yn gwybod am rywun sydd hapus i gael sgwrs Cymraeg cysylltwch â ni.

Isaias (Eseia) Grandis

| | |
|---|---|
| swyn - encanto | hud - magia |
| cyfochrog - paralelo | diferion - gotas |
| llwyni - arbustos | cytgord - armonía |
| cyfansoddwr - compositor | |
| ymweld - vsitar | diweddar - difunto/a |
| amlach - mas seguido | hen iaith = Cymraeg |
| o gwmpas - alrededor | |

# Gŵyl y Glaniad

Digwyddodd lawer o bethau yma yn yr Andes er mwyn dathlu Gŵyl y Glaniad. Prynhawn Iau roedd yr Acto yn Nhrevelin, gyda Kati Thomas, Martin Iwan, Geri Green, Susana de la Fuente, Dolly Miguens a mi yn cario baneri Cymru a'r Ariannin ac yn cynrychioli'r Ysgol Gymraeg. Adroddodd Randal Rowlands hanes diddorol iawn yn ystod yr Acto hefyd. Nos Iau roedd yna gyngerdd yn Nhrevelin yn Salon Central. Cawsom ein diddanu gan Jorge de Oro gyda'i bib a'i bibau, Alejandro Jones, Vincente Evans, Alwen Green yn adrodd, darlleniad o gerdd Mary Green, grŵp plant dawnswyr 'Cwm Hyfryd' (+ fi gan fod un o'r plant yn sal, roeddwn yn edrych fel cawr), a dawnswyr hŷn 'Cwm Hyfryd', a chyflwyno gan Aldo Sangiovanni, Isaias Grandis a minnau. Ar y diwedd cafodd pawb gyfle i ddawnsio chydig o ddawnsio gwerin dan arweiniad Jessica Jones, cyn bwyta cŵn poeth (hynod o draddodiadol!) a sgons. Cafodd Cymdeithas Gymraeg Trevelin swper hefyd yn hwyrach yn y noson .







Prynhawn dydd Gwener, cafodd y ffilm 'Separado' ei dangos yn Nhrevelin. Fe wnaeth pawb fwynhau, yn arbennig gweld wynebau cyfarwydd ar y sgrin. Diolch i Isaias am drefnu'r dathliadau. Nos Wener yn Esquel roedd swper y Gymdeithas Gymraeg. Bwytodd bawb lond eu boliau, o'r bwyd hyfryd oedd wedi cael ei baratoi. Ar ôl y bwyd cawsom lawer o hwyl yn darlunio'r Mimosa, fel timau (mae cyfle i liwio un o'r darluniau yng Nghornel y plant).. Roedd dehongliadau'n ddiddorol iawn gyda hofrennydd, cyfrifiaduron a llawer o greaduriaid yn y môr. Yna roedd rhaid i bawb geisio cofio enwau'r holl aelodau gwreiddiol o'r Gymdeithas Gymraeg, ac ysgrifennu hanes dychmygol Jack Jones (cymeriad dychmygol a ddaeth ar y Mimosa), cyn gorffen gydag ychydig o ddawnsio gwerin. Buodd Joyce yn brysur iawn yn cyflwyno drwy'r nos, gyda help gan ei 'sidekick' Romina, a Richard Lewis yn gyfrifol am y raffl.

Brynhawn dydd Sul roedd Cymanfa Canu yng Nghapel Bethel Trevelin, a gafodd ei threfnu gan Alejandro Jones. Fe wnaethom ganu lawer o ganeuon yn y Gymraeg, ac mewn Sbaeneg, a darlleniadau a gweddi gan Alwen Green a Isaias Grandis yn y ddwy iaith. Roedd yr olygfa gyda'r haul yn machlud tu ôl i'r mynyddoedd gwyn, wrth i ni adael y capel, yn drawiadol iawn.

# Rysáit - Saws Siocled



**Cynhwysion:**

75 g o siwgr
25 g o fenyn
25 g o bowdr coco
2 llond llwy fwrdd o laeth
½ llond llwy o rinflas fanila

**Dull:**

1. Rhowch y cynhwysion mewn sosban fach a'u troi dros wres isel nes bod y menyn wedi toddi a'r saws yn llyfn
2. Berwch y cymysgedd am 3 munud a'i droi'n dda.
3. Arllwyswch y saws poeth dros y gacen neu hufen iâ.

Gan Liliana Melnik

# Menter PATAGONIA

Cawsom gyfle i fod yn ddwl unwaith eto, ond y tro yma yn Nhrevelin, mewn 'Steddfod Ddwl'. Cyn cychwyn ar y cystadlu roedd yno lobsgóws neu gawl er mwyn llenwi'n boliau a chael digon o egni ar gyfer perfformio. Roedd yno lawer o hwyl a chwerthin, wrth i bawb, fodelu, 'sgwennu cerddi, dawnsio'n greadigol, canu fel anifeiliaid a rocio fel band. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd Pompa yn modelu bag plastig, Margarita yn mynd yn wyllt fel drymiwr yn y band - doniol iawn, ac wrth gwrs y plant. Roedd yno ddau dîm, sef 'Tatws Newydd' a'r 'Twpsod', ac wrth roedd rhywun yn gorfod ennill. Roedd hi'n anodd beirniadu weithiau oherwydd roedd pawb yr un mor dda, doniol a thwp a'i gilydd, ond yn y diwedd 'Tatws Newydd' wnaeth ennill o drwch blewyn.

Cafodd plant ysgol Trevelin gyfle unwaith eto i



gydweithio gyda chriw o Rincon del arte. Roeddem eisiau i'r plant gofio a meddwl am bwysigrwydd y goedwig yma ym Mhatagonia, felly fe wnaeth y plant graffiti gyda rhai o enwau o'r pethau sydd yn y goedwig - megis coed, cerrig, moch gwyllt, adra, hedd a hud. Ar y dechrau fe wnes i weithgaredd gyda'r plant, yn atgoffa a chyflwyno rhai o'r geiriau. Roedd y plant yn actio rhai o'r pethau ac yn creu lluniau llonydd gyda'u gyrff. Ar ôl y gweithgaredd aethon nhw i weithio gyda Pablo, a chreu graffiti, drwy ddefnyddio paent a phasteli olew. Synnais ar safon y gwaith, ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn holi cwestiynau am y Gymraeg ac am goedwigoedd.

Daeth criw ifanc ohonom at ein gilydd un nos Wener, yn Nhrevelin. Roedd pawb wedi dod â rhywbeth Mecsicanaidd gyda nhw - llenwad, tacos, gwacamole. Rhai'n sbeisi ac eraill ddim mor sbeisi - rhywbeth ar gyfer tafod pawb. Fe wnaeth pawb fwynhau'r bwyd, gormod efallai, oherwydd doedd dim tacos ar ôl ac roedd chwant mwy ar bawb. Felly doedd dim dewis ond i Isaìas goginio bara llechwen. Credaf ei bod hi'n foment hanesyddol - y tro cyntaf erioed i gwacamole gael ei fwyta gyda bara llechwen. Nid yn unig ydym yn cael hwyl, ond yn ogystal yn arloesi!!! Ar ôl y bwyd cawsom bwdin - hufen, siocled, bisgedi a choffi, i gyd wedi cael eu cymysgu. Credaf nad oes rhaid i mi ddweud rhagor - mmm!

Cafwyd noson cawl a chwis yn Esquel, er mwyn casglu arian at Mi Casita, sefydliad sy'n helpu plant o deuluoedd tlawd yn y dref. Roedd y merched o'r Dyffryn yma, Lois a Nia (a ffrind Lois, Catrin), dros y penwythnos, a gwnaethom oll helpu i baratoi'r cawl (lobsgóws) drwy blicio a thorri. Ar ôl i bawb orffen eu cawl, fe wnaeth bawb rannu'n ddau dîm ar gyfer y cwis. Roedd yna gwestiynau ynglŷn â Chymru, yr Ariannin, a gweddill y byd - rhai yn anodd a rhai'n haws. Roeddwn yn gallu gweld y stem yn dod o ymenyddoedd pawb wrth weithio'n galed. Noson hwyliog ac addysgol.

Cyn diwedd y tymor, a chyn gwyliau'r gaeaf, cawson



barti yn Ysgol Gymraeg Trevelin. Yn gyntaf roedd y plant. Fe wnaethom fwynhau'r gemau parti - dawnsio cerflun, pasio'r parsel, llunio'r gynffon ar yr asyn, a dawnsio am sbri. Roeddem oll yn llwglyd a sychedig, felly fe wnaethom fwyta cacen, bisgedi a chreision nes doedd dim ar ôl. Yna oedd tro'r oedolion. Roedd yn gyfle i gael ffarwelio a dymuno'n dda i Martin Iwan, sydd yn mynd i Ganada am flwyddyn. Derbyniodd 'chop' yn anrheg gyda lluniau o Drevelin, i'w atgoffa tra bydd o dramor. Mwynheuon y bwyd oedd pawb wedi ei ddod gyda nhw, cyn chwarae gemau gyda'r oedolion. Rwy'n siŵr eu bod wedi mwynhau cymaint â'r plant, yn dawnsio, pasio'r parsel ac yn ceisio gwneud 'mummy' gyda phapur tŷ bach. Mae 'na blentyn yn cuddio ynom i gyd!

## Geirfa

| | |
|---|---|
| beirniadu - juzgar | pwysicrwydd - importancia |
| moch gwyllt—jabalís | safon - estándar |
| llenwad - relleno | chwant - desear |
| arloesi - innovación | sefydliad - instituto |
| ymenyddoedd - cerebros | cerflun - estatua |
| o drwch blewyn – por un pelo | |

# Cornel Plant

## Lliwiwch y Mimosa




## Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau, gwnewch lun ohonoch yn y bwlch a rhowch yr atebion i Iwan er mwyn ennill gwobr

| | |
|---|---|
| Pwy wyt ti?<br><br>Blw wyt ti’n byw?<br><br>Pa liw wyt ti yn hoffi?<br><br>Pa liw ydi eliffant? | |

## Dewch i ddarllen

Yn y Clwb Darllen (pob Nos Lun, 20.00) rydym wedi cychwyn darllen 'Eironi' gan J.Philip Davies. Nofel cyffrous ydi hi i ddysgwyr, ac mae yno gymeriadau o'r Wladfa yn y llyfr. Dyma'r bennod gyntaf. Cofiwch nid yw'n rhy hwyr ymuno!

Ar graig uchel uwchben y dref mae sgerbwd un o gestyll Iorwerth y cyntaf yn arwydd o'i ddylanwad Seisnig ar y dref islaw. O ben muriau'r castell rydych chi'n gallu gweld dyffryn ffrwythlon afon Clwyd, ond tu ôl i'r hen gaer, y tu allan i furiau'r dref farchnad brysur, mae adeilad llwyd Fictoraidd yn sefyll o'r neilltu. Gwynfryn ydy enw'r adeilad, Ysbyty Gwynfryn yn nhref Dinbych, ysbyty sy'n arbenigo mewn afiechydon y meddwl.

O fewn yr adeilad, mae seicolegwyr, seiciatryddion a meddygon yn cydweithio i geisio gwella'r cleifion. Erbyn hyn, dydy Gwynfryn ddim yn garchar am oes i'r cleifion, ac mae llawer yn gwella'n ddigon da i ymadael â'r lle i fyw bywyd naturiol gartref. Ond un o'r cleifion sy'n achosi'r problemau mwyaf ydy'r seicopath. Mae'r seicopath yn ymddangos yn gwbl naturiol y rhan fwyaf o'r amser, ond dro arall, mae'n gallu troi'n ffiaidd gan ymosod yn ffyrnig a mwynhau lladd.

Roedd tri seicopath yn aros yn Ysbyty Gwynfryn, dros dro, ar ôl cael eu trosglwyddo o Rain Hill yn Lerpwl, yn sgîl cyhoeddusrwydd beirniadol ar yr ysbyty hwnnw yn y papurau newydd. Roeddwn nhw wedi eu cloi mewn celloedd di -sŵn ar yr ail lawr.

Cerddodd y nyrs ar hyd coridor ail lawr Ysbyty Gwynfryn. Arhosodd wrth ddrws ystafell ugain, ac edrychodd drwy'r twll llygad y drws. Gwelodd y claf yn gorwedd yn dawel yn y gwely. Roedd tabledi largactil yn gweithio'n dda. Roedd y claf wedi bod yn hollol dawel ers dyddiau. Roedd hi'n amser rhoi dwy dabled hanner can miligram o chlorpomazine i'r claf. Trodd y 'goriad. Agorodd y drws ac aeth i mewn.

Yn yr ychydig eiliadau mae hi'n gymryd i'r ymennydd sylweddoli beth sy'n digwydd, daeth y nyrs yn ymwybodol o rywbeth yn disgyn. Aeth popeth yn ddu a syrthiodd y nyrs i'r llawr yn anymwybodol. Roedd y claf yn plygu uwchben y nyrs. Dim ond gobennydd a blancedi oes y 'claf' yn y gwely. Chwarddodd y claf yn sinistr. Gafaelodd y seicopath yng ngwddw'r nyrs a gwasgodd y bibell wynt yn dynn. Ar ôl rhai munudau, teimlodd y seicopath arddwrn y nyrs. Doedd dim curiad.

Llusgodd y claf gorff y nyrs at y gwely a chuddiodd y corff o dan y dillad . Rhedodd y seicopath at y drws. Agorodd o'n araf ac yn ofalus. Edrychodd i fyny ac i lawr y coridor. Doedd neb yno. Aeth allan yn gyflym a chloi'r drws. Yn stafell newid y staff, daeth o hyd i siwmper ddu, jeans tywyll a sgidiau. Gwisgodd y dillad yn gyflym. Agorodd flwch tun wrth ymyl y tegell, a chymerodd chwe phunt dau ddeg, arian y coffi, allan ohono.

Defnyddiodd oriadau'r nyrs i adael yr ail lawr. Roedd hi'n hawdd, wedyn, dianc, o'r ysbyty. Agorodd ddrws oedd yn arwain at faes parcio ceir y staff a'r brif fynedfa. Doedd neb yno. Aeth allan i'r oerni. Erbyn hyn, roedd y seicopath yn ymddwyn yn hollol naturiol.


| | | |
|---|---|---|
| dylanwad - influencia | o'r neilltu - aparte | claf/cleifion - paciente/s |
| ffiaidd - repugnante | beirniadol - crítico | ymwybodol - consciente |
| anymwybodol - inconsciente | gobennydd - almohad | arddwn - muñeca |
| curiad - latido (del corazon) | dianc - escapar | seicopath - psicopata |

## Enillydd

Enillydd cystadleuaeth rhifyn Mis Gorffennaf o Lais yr Andes yw Diana. Yn lwcus iawn derbyniodd ei gwobr ar ddiwrnod ei phen-blwydd. Llongyfarchiadau iddi, ac os ydych eisiau siawns o ennill atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf.



## Croesair



I LAWR
1. narcisos
2. brotando
3. nido
4. corderos
5. crecer

AR DRAWS
1. campanilla de invierno
2. viento
3. pollito
4. septiembre
5. octubre

Cofiwch fod, ch, dd, ff, ll,, rh, th yn un llythyren.

## Sudoku

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | | 7 | | |
| | | | 5 | | 7 | | | |
| 7 | | 3 | 2 | | 9 | | | 4 |
| 5 | 4 | | | | | | 7 | |
| | 6 | 1 | | | | 4 | 5 | |
| | 7 | | | | | | 8 | 9 |
| 9 | | | 3 | | 4 | 2 | | 5 |
| | | | 1 | | 6 | | | |
| | | 5 | | 9 | | | | |

Rhaid cael bob rhif rhwng 1 a 9 ym mhob llinell, ac ym mhob bocs.

## Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau hyn, a dychwelwch yr atebion i Iwan Madog ar ddarn o bapur erbyn 21/10/2011, ac mae siawns i un ohonoch ennill gwobr arbennig fel y gwnaeth Diana!

1. Ble hoffai Cristina deithio nesaf?
2. Sawl gram o siwgr sydd ei angen i wneud y saws siocled?
3. Faint o bres gymerodd y seicopath o'r tun yn y darn darllen?
4. Hanes ddychmygol pwy oedd pawb yn gorfod ei chreu yn swper Gŵyl y Glaniad yn Esquel?

Mae'r holl atebion yn yn rhifyn yma